



Trosolwg

Mae pob math o drais a cham-drin yn annerbyniol. Rhaid i bob un sy'n profi trais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael ymateb effeithiol ac amserol gan awdurdodau perthnasol.

Mae "Gofyn a Gweithredu" yn broses o holi wedi'i dargedu i'w harfer ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term 'holi wedi'i dargedu' yn disgrifio proses o adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n ysgogi'r gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w gleient a yw wedi profi unrhyw un o'r problemau hyn.

Nodau "Gofyn a Gweithredu" yw:

- adnabod mwy o bobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i'r rheini sy'n cael eu hadnabod, fel y darperir cymorth arbenigol ar sail risg ac angen y cleient;
- dechrau creu diwylliant ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus lle mae'r profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall yn y cyd-destun cywir, lle mae datgelu'n cael ei dderbyn a'i hwyluso, a chymorth priodol a chyson yn cael ei ddarparu;

- gwella'r ymateb i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl;
- ymgysylltu'n rhagweithiol, ar y cyfle cyntaf posibl, â'r rheini sy'n agored i niwed a chuddiedig, yn lle dim ond ymgysylltu'n ymatebol â'r rheini sydd eisoes mewn argyfwng neu mewn perygl agos o gael niwed difrifol.

"Gofyn a Gweithredu" yw un o'r newidiadau pwysicaf mewn ymarfer sydd wedi'i hwyluso drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r ddau bolisi hyn a luniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu hintegreiddio gan fod y broses leol o ddarparu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol hefyd yn darparu agweddau allweddol o'r broses "Gofyn a Gweithredu".

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell darparu system o holi clinigol wedi'i dargedu ym mhob gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn gwella'r gallu i adnabod achosion o gam-drin domestig ac felly i ymateb iddynt.^{1, 2}

¹ Responding to Intimate partner violence and sexual violence against women. World Health Organisation clinical and policy guidelines (2013)

² Domestic violence and abuse: how health services, social care and the organisations they work with can respond effectively. NICE public health guidance 50 (Chwefror 2014)

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd gam ymhellach â'r argymhelliad hwn a'r arferion da a nodwyd drwy gefnogi'r defnydd o holi o'r fath ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus (i gynnwys y rheini sy'n cyflawni rôl diogelu, addysg, gwasanaethau Tân ac Achub a'r rheini mewn gwasanaethau tai). Mae hefyd yn cynnig ehangu cwmpas y broses ychydig drwy holi am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rôl i'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan yw ymateb yn effeithiol i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn yn galw am gydweithio, yn ei ystyr ehangaf, i gynnig ymateb cyson a safonol, drwy ba lwybr bynnag (tai, iechyd, gofal cymdeithasol etc) y bydd y cleient yn cael gafael ar wasanaeth. Mae arweinyddiaeth a chydgyssylltu strategol yn hanfodol i sefydlu proses sy'n addas i'r gweithlu, i'r sefydliad ac, yn fwy na dim, i'r cleient.

Bydd yr arferion gweithio i gynnig ymateb cyson yn amrywio, wrth gwrs, yn ôl strwythur y sefydliad a'r grŵp cleientiaid. **Nid yr un broses "Gofyn a Gweithredu" fydd yn cael ei rhoi ar waith ym mhob sefydliad ond dylai pob sefydliad ystyried beth yw'r ffordd orau o gynnig "Gofyn a Gweithredu" drwy ei wahanol swyddogaethau a rolau proffesiynol.**

Fodd bynnag, rhaid cydymffurfio ag un datganiad sylfaenol ym mhob amrywiad ar y broses:

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn galw am ymateb gan y Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod hyder gan weithwyr proffesiynol yn eu gallu i adnabod y problemau hyn, i holi amdanynt ac i ymateb yn effeithiol iddynt er mwyn sicrhau ymarfer da mewn gwasanaethau clinigol a gofal cymdeithasol.

Dylid asesu pob model gwaith a gynigir ar sail y pedair egwyddor allweddol isod. Ym mha ffordd bynnag y bydd y broses **"Gofyn a Gweithredu" yn cael ei rhoi ar waith, dylid rhoi sylw i bob un o'r egwyddorion hyn.**

1. Diwylliant ac arweinyddiaeth
2. Eglurder a hyder
3. Adnabod ac ymateb
4. Camau dilynol a monitro

Mae'r diagram isod yn diffinio'r egwyddorion hyn yn fwy manwl.

Egwyddorion “Gofyn a Gweithredu”

Diwylliant ac arweinyddiaeth

Nod: Diwylliant gweithio sy'n cydnabod bod “Gofyn a Gweithredu” yn rhan ganolog o bwrpas y sefydliad.

Gofynion:


- Pennu arweinyddiaeth a rheolaeth gryf
- Ystyried a rhoi sylw i rwystrau posibl i weithredu “Gofyn a Gweithredu”
- Cydnabod a rhoi sylw i'r effaith bosibl ar staff.

Adnabod ac ymateb

Nod: Proses wedi'i theilwra i'r sefydliad sy'n cynnwys adnabod, holi wedi'i dargedu ac ymyrryd ar gyfer y rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gofynion:

- Staff sy'n ymwybodol o ddangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Proses fewnol glir sy'n dilyn y cam adnabod ac yn cynnwys holi wedi'i dargedu
- Ymateb sy'n sicrhau ymyriad effeithlon, cadarnhaol ar gyfer y cleient
- Prosesau partneriaeth a chydweithio sy'n cynnig mynediad effeithlon i'r cleient at gymorth arbenigol.



Eglurder a hyder

Nod: Gweithlu sy'n barod i roi “Gofyn a Gweithredu” ar waith; yn hyderus ac atebol gyda pholisïau a gweithdrefnau clir i'w helpu.

Gofynion:

- Polisiau ar gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth sy'n addas i'w diben
- Llinellau atebolrwydd clir rhwng staff, rheolwyr ac arweinwyr
- Enwi a hyfforddi staff “perthnasol”, gan bennu eu cyfrifoldeb yn glir.

Camau dilynol a monitro

Nod: Trosolwg a gwerthuso strategol ar broses sy'n mapio datgeliadau ar sail y boblogaeth ac yn defnyddio data a chydweithio lleol i'w datblygu ymhellach.

Gofynion:

- Canllawiau clir ar gofnodi datgeliadau
- Pennu data sylfaen ar gyfer monitro datgeliadau
- Trosolwg strategol ar y broses a monitro rheolaidd
- Ystyried y ffordd o gymhwyso'r broses mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.